**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 19 Mawrth 2020 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
| --- | --- | --- |
| M C Child | R Francis-Davies | A S Lewis |
| C E Lloyd | S Pritchard | A H Stevens |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Lee Wenham | Head of Communications & Customer Engagement |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): C R Evans

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D H Hopkins, J A Raynor a/ac M Thomas

---

## 163. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R C Stewart gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 170 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo ddechrau;

2) Datganodd y Cynghorwyr M C Child a R Francis-Davies gysylltiad personol â Chofnod 174 "Adroddiad Blynyddol Parneriaethau Hamdden 2018/19";

3) Datganodd y Prif Weithredwr, Phil Roberts gysylltiad personol â Chofnod 179 "Gwella Ysgolion – Trefniadau Gweithio'r Dyfodol".

## 164. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod o'r Cabinet Arbennig a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2020;

2) Cyfarfod o'r Cabinet Arbennig a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2020.

**165. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

**1) Covid-19**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i bawb sydd wedi, ac sy'n parhau i gynorthwyo gyda'r trefniadau ar draws Abertawe mewn perthynas â phandemig Covid-19.

**166. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**167. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**168. Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 3 2019/20.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2019/2020.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywiro i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**169. Adolygiad Blynyddol o Amcanion Lles a Chynllun Corfforaethol 2020/22.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad adroddiad a oedd yn cyhoeddi Cynllun Corfforaethol diwygiedig sy'n cynnwys Amcanion Lles y cyngor ar gyfer 2020/22 yn unol â'r gofynion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r arweiniad statudol sy'n berthnasol i Gyrff Cyhoeddus.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig ar gyfer 2020/22.

**170. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Glyncollen | Y Cyng. Rob Stewart |
| 2) | Ysgol Gynradd Penyrheol | Patricia Griffiths |
| 3) | Ysgol Gynradd Pontarddulais | Clive Matthias |
| 4) | Ysgol Gynradd Pontlliw | Melissa Taylor |
| 5) | Ysgol Gynradd y Garreg Wen | Lucy Harding |
| 6) | YGG Gellionnen | Carly Porter |

## 171. Canolbwynt diwylliannol a digidol yn Theatr y Grand.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i roi prydles i Gyngor Hil Cymru a chreu Canolfan Ddiwylliannol a Digidol yn Adain y Celfyddydau Theatr y Grand Abertawe at ddefnydd y gymuned.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo rhoi cytundeb rheoli a phrydles 5 mlynedd i Gyngor Hil Cymru, gyda'r opsiwn i adnewyddu am 5 mlynedd arall yn ôl disgresiwn y cyngor;

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyfreithiol ar y cyd â'r Aelod Cabinet perthnasol i drafod y Penawdau Telerau terfynol a llunio unrhyw ddogfennaeth sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau'r weithrediad.

## 172. Rhaglen Grant Cyfleusterau I'r Anabl A Grant Gwella 2020/2021.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn darparu manylion y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella ac yn ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cynlluniau yn Rhaglen Gyfalaf 2020/21. Cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf), i ymrwymo ac awdurdodi cynlluniau yn ôl y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella, fel y'i nodwyd, gan gynnwys ei goblygiadau ariannol, ac y dylid ei chynnwys yng Nghyllideb Gyfalaf 21/2020;

2) Adolygu Polisi Adnewyddu ac Addasiadau i'r Anabl y Sector Preifat yn 2020/21 er mwyn helpu i gyfeirio gofynion cyllido'r rhaglen yn y dyfodol.

## 173. Adroddiad Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf 2020/2021.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar y cynlluniau i'w hariannu drwy'r Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo'r cynlluniau cynnal a chadw cyfalaf arfaethedig a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad;

2) Cymeradwyo'r cynlluniau a'u goblygiadau ariannol fel a nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

## 174. Adroddiad Blynyddol Partneriaethau Hamdden 18/19.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am weithdrefnau partneriaeth cyfleusterau allweddol ym mhortffolio'r Gwasanaethau Diwylliannol.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad.

## 175. Dyraniad Cyfalaf i Asedau Isadeiledd Priffyrdd 2020-2021.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhad am y Rhaglen Gwaith Cyfalaf ar gyfer asedau'r isadeiledd priffyrdd.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Dylid cymeradwyo'r dyraniadau arfaethedig, ynghyd â'r Goblygiadau Ariannol a nodir yn Atodiad A yr adroddiad, a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf;

2) Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant gyda chydsyniad Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i flaenoriaethu, cwblhau a dyrannu'r arian i'r cynlluniau priodol yn unol â'r ymagwedd flaenoriaethu a nodwyd yn yr adroddiad;

3) Cymeradwyo'r Blaenraglen Waith Priffyrdd 5 mlynedd.

## 176. Cyllideb Gymunedol yr Aelodau - Arweiniad Diweddaredig.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ac yn diwygio'r meini prawf ar gyfer cyflwyno'r cynllun Cyllideb Gymunedol i adlewyrchu'r gallu i wneud cais am ddyraniad cyfalaf ychwanegol.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo'r arweiniad diwygiedig sy'n ymwneud â Chyllidebau Cymunedol (Refeniw a Chyfalaf).

## 177. Prydles Arfaethedig Parc Coed Gwilym I Gyngor Cymunedol Clydach Dan Y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i drafod Penawdau Telerau, cytuno arnynt ac

ymrwymo i brydles gyda Chyngor Cymuned Clydach ar gyfer Parc Coed Gwilym, gan gynnwys rheoli defnydd cymunedol a llogi a gosod eilaidd yn ddi-oed.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Ar ôl ystyried yr adroddiad llafar a oedd yn amlinellu'r ymateb i broses ymgynghori statudol mannau agored cyhoeddus, cymeradwywyd y cynigion i waredu'r tir a nodwyd y goblygiadau ariannol a gweithredol;

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd drafod a phenderfynu ar delerau'r brydles arfaethedig (ac unrhyw Weithredoedd Amrywiad wedi hynny) a dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol er mwyn cwblhau'r ddogfennaeth gyfreithiol;

3) Cymeradwyo'r uchelgeisiau tymor hir a'r rhaglen welliannau fesul cam a gynigwyd gan Gyngor Cyngor Cymuned Clydach mewn egwyddor;

4) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lleoedd i gytuno ar y rhaglen fesul cam, ar yr amod y bodlonir yr adolygiadau agoriadol a cherrig milltir, y cyllid, mynediad, contractau ac unrhyw gymeradwyaethau a gweithdrefnau gofynnol eraill.

## 178. FPR7 - Cymeradwyo Cyfalaf Cronfa Gofal Integredig 2019/2020.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda adroddiad a oedd yn ceisio arian cyfalaf cymeradwyaeth ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig (GGI) ar gyfer Cyngor Abertawe ac i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) er mwyn neilltuo ac awdurdodi cynllun i’r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodi'r cynlluniau sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad a'u goblygiadau ariannol a'u hychwanegu at Raglen Gyfalaf y cyngor.

## 179. Gwella Ysgolion - Trefniadau Gweithio'r Dyfodol.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Brys:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “naill ai Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro'n ardystio y gallai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y weithdrefn galw i mewn wneud niwed i'r cyngor neu fudd y cyhoedd, gan gynnwys methu cydymffurfio â gofynion statudol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn rhoi hysbysiad i adael y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol, ERW.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo model newydd ar gyfer gwella ysgolion yn seiliedig ar strwythur y Fargen Ddinesig mewn egwyddor;

2) Bydd yr awdurdod yn gadael y trefniant consortiwm presennol trwy ERW erbyn 1 Ebrill 2021 ac yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i bob un o'r awdurdodau eraill erbyn 31 Mawrth 2020;

3) Cynnal trafodaethau â Chynghorau Partner Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Llywodraeth Cymru i gytuno ar drefniadau cydweithio yn y dyfodol er mwyn gwella ysgolion.

## 180. Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.**

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 181. Diweddariad ar Reoli ac Adroddiad Opsiynau ar gyfer Maes Awyr Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am y gweithgareddau rheoli ystadau presennol ym Maes Awyr Abertawe, gan gynnwys atal trwydded weithredu'r Awdurdod Hedfan Sifil (AHS) dros dro.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 182. FPR7 - Y diweddaraf am Raglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru 2018-21.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 183. Cronfa Gyfalaf Ysgogi Economaidd.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau

Cyfalaf) er mwyn neilltuo ac awdurdodi cynnwys y Gronfa Gyfalaf Ysgogi Economaidd.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 184. FPR7 - Caffael The Lamb, 105 Y Stryd Fawr, Abertawe

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau, Cydnerthedd a Chydweithio Strategol a Buddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.17 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 19 Mawrth 2020 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 24 Mawrth 2020 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 25 Mawrth 2020 |